World Heritage Sites

unesco

United Kingdom
National Commission
for UNESCO

# Traphont a Chamlas Pontcysyllte



Taflen ffeithiau

54

Taflen ffeithiau 54

# Traphont a Chamlas Pontcysyllte

**Yn ymestyn dros un filltir ar ddeg o'r gamlas a chefn gwlad syfrdanol, mae Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ddarn eithriadol o dreftadaeth ddiwydiannol a pheirianyddol sy'n cynnwys argloddiau, twneli, traphontydd a thraphontydd dŵr, gan gynnwys Traphont Ddŵr syfrdanol Pontcysyllte ei hun sydd wedi'i ddisgrifio fel *'campwaith o athrylith greadigol'.***

**Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte a ddyluniwyd gan Thomas Telford yn sefyll ar 39 metr o uchder ac fe'i cwblhawyd ym 1805. Mae gan y Draphont Ddŵr y clod am fod y draphont ddŵr fordwyol uchaf yn y byd.**

### Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn dathlu campweithiau peirianneg mawreddog ac mae'n un o eiconau'r chwyldro diwydiannol. Cafodd ei arysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2009.

Adeiladwyd y gamlas rhwng 1793 a 1808 i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon ar gyfer adnoddau diwydiannol fel glo, haearn, calchfaen a llechi. Cynlluniwyd y gamlas gan ddau beiriannydd sifil rhagorol William Jessop a Thomas Telford. Heddiw mae'r gamlas yn denu cychwyr, cerddwyr ac ymwelwyr sy'n dod i ryfeddu at rai o lwyddiannau mwyaf rhyfeddol y chwyldro diwydiannol.

Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte, sydd wrth galon Safle Treftadaeth y Byd, yn draphont ddŵr fordwyol sy'n cludo Camlas Llangollen ar draws Afon Dyfrdwy yn Nyffryn Llangollen yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Cwblhawyd y strwythur carreg a haearn bwrw 18 bwa ym 1805 ar ôl cymryd deng mlynedd i'w ddylunio a'i adeiladu. Mae'n 12 troedfedd (3.7 metr) o led a dyma'r draphont ddŵr hiraf ym Mhrydain Fawr yn ogystal â thraphont ddŵr gamlas uchaf y byd. Mae llwybr tynnu yn rhedeg wrth ymyl y cwrs dŵr ar un ochr i'r Draphont Ddŵr sy'n caniatáu i ymwelwyr gerdded ar draws a mwynhau golygfeydd godidog o Ddyffryn Dyfrdwy.

World Heritage Sites



**Traphont a Chamlas Pontcysyllte**

Siroedd: **Wrexham, Denbighshire and Shropshire**


**pontcysyllte-aqueduct.co.uk**
**pontcysyllte@wrexham.gov.uk**



Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

UKNCFSWHS26v1.1 / DEC 2024